Dydd Llun Tachwedd 8fed

# Camau bach: ysgrifennu sgript

**Y dasg:- Ysgrifennu sgwrs rhwng Rhys a Meinir noswyl y briodas.**

Braslun o'r gwersi:-

Gwers 1:- Cydffurfio y M.P.Ll. Trafod holl elfennau pwysig y sgript/deialog. Partneriaid ar hap yn cael eu dewis gyda ffyn lolipop.

Gwers 2:- Gweithio gyda golygfa o'r chwedl ar ffurf llun a hel syniadau/dyflau beth fyddai'r sgwrs rhwng Rhys a Meinir, noswyl y briodas.

Gwers 3:- Gwers cywiro darn o waith. Y plant i farcio ac adnabod gwallau atalnodi phriflythrennau. Gwers ychwanegol ar ôl canfod gwallau cyffredin wrth ysgrifennu enwau.

Gwers 4:- Cyd-weithio a pharhau i weithio gyda'r partner i ysgrifennu sgwrs gan gofio cynnwys cwestiynau.

Gwers 5:- Gorffen y sgwrs a'i ymarfer ar lafar. Cyfeirio'n ôl at y M.P.LL – perfformiad hyderus, gyda digon o lais.

Gwers 6: - Perfformio ein sgwrs o flaen y dosbarth (mewn gwisgoedd a wig gwalltog) a bydd Mrs Huws yn ei recordio fel tystiolaeth o'n gwaith llafar.

**M.P.LL** (wedi eu ffurfio ar y cyd gyda'r dosbarth i gyd)



- Trafod yn dda a gwrando a parchu syniadau fy mhartner
- Perffomio'n hyderus gyda llais actio cryf
- Cofion cynnwys digon o gwestiynau yn y sgript